**LLYWODRAETH CYMRU**

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020**

**Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis)* (Ardal a Ddarnodir 7)**

Mae arolygydd iechyd planhigion a benodwyd gan Weinidogion Cymru at ddibenion Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 (“y Rheoliadau”) wedi cadarnhau presenoldeb Phytophthora pluvialis ar fangre yn siroedd Sir Gaerfyrddin.

Drwy arfer y pwerau a roddir gan reoliad 17(2) o'r Rheoliadau, rhoddaf yr hysbysiad a ganlyn:

**Enwi**

1. Enw'r hysbysiad hwn yw Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis 02)* (Cymru).

**Ardal a ddarnodir**

2. Yn unol â rheoliad 17(2)(a) o'r Rheoliadau, mae'r ardal yn siroedd Sir Gaerfyrddin o fewn y ffin a ddisgrifir yn Atodiad 1, ac a ddangosir ar y map yn Atodiad 2 ar wefan Llywodraeth Cymru, wedi ei darnodi.

**Cyfyngu ar gwympo deunydd sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau heb hysbysiad ymlaen llaw**

3. Yn unol â rheoliad 17(2)(b) y Rheoliadau, mae’n rhaid i berson hysbysu’r Comisiwn Coedwigaeth ymlaen llaw yn ysgrifenedig ynghylch eu bwriad i gwympo unrhyw ddeunydd sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn yr ardal a ddarnodir.

**Gwahardd symud deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau**

4. Yn unol â rheoliad 17(2)(b) o'r Rheoliadau, ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw ddeunydd perthnasol sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o'r ardal a ddarnodir a bennir yn yr hysbysiad hwn, oni bai ei fod wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan arolygydd Iechyd Planhigion.

**Deunydd perthnasol sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau**

5. At ddibenion paragraffau 3 a 4 uchod, ystyr deunydd perthnasol sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau yw:

(a) y deunydd a ganlyn sydd wedi tarddu o fewn yr ardal a ddarnodir –

   i. unrhyw bren o'r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus and Notholithocarpus** ac eithrio ar ffurf deunydd pecynnu pren neu bacin;
   ii. unrhyw risgl ynysedig o'r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus and Notholithocarpus**

iii. unrhyw goed o’r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus and Notholithocarpus** gan gynnwys coed a gwympwyd neu goed a syrthiodd, ffrwythau, hadau, dail neu ddeiliant.

(b) unrhyw blanhigion ar gyfer plannu'r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus and Notholithocarpus** sydd wedi tarddu neu sy'n byw o fewn yr ardal a ddarnodir.

**Cychwyn y gwaharddiad**

6. Mae'r gwaharddiad a nodir yn yr hysbysiad hwn yn gymwys ar **21 Ebrill 2022** ac ar ôl hynny hyd nes y rhoddir hysbysiad pellach.

Llofnodwyd



Ceri Witchard, Prif Swyddog Iechyd Planhigion Cymru

Llywodraeth Cymru, **12 Ebrill 2022**

## ATODIAD 1

### Disgrifiad o faint yr ardal a ddarnodir

Mae'r Ffin yn dechrau i'r De o Lanbedr Pont Steffan ym mhentref Cwmann. Ym mhwynt SN582473 mae'r ffin yn dilyn yr A482 i gyfeiriad y de-orllewin am 24km hyd nes y bydd yn cyrraedd Llanwrda yn SN713315.

Yn y pwynt hwn mae'r ffin yn gadael yr A482 ac yn ymuno â'r A40 am 34km gan deithio tuag at Caerfyrddin. Mae'r ffin yn dilyn yr A40 gan fynd heibio Llandeilo a Nantgaredig cyn cyrraedd cylchfan yn SN431212. Yma mae'r ffin yn gadael yr A40 ac yn ymuno â'r A485 am 35km gan deithio i gyfeiriad y gogledd i Lanbedr Pont Steffan gan fynd heibio Rhydcymerau, Alltwalis a Llanybydder cyn cyrraedd y pwynt cychwyn sef SN582473 yng Nghwmann.